



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gorchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021

Dyddiad cyhoeddi: 23 Chwefror 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Gorchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gynigion i roi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg dynnu enw unigolyn sydd wedi cofrestru dros dro oddi ar gofrestr y gweithlu addysg fel mesur interim, ac yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r farn a'r sylwadau a gafwyd.

Camau gweithredu gofynnol

Dim

Gwybodaeth ychwanegol

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru

e-bost: SMED2@llyw.cymru
Ffôn: 0300 060 4400



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynnwys

Crynodeb	Tud. 3
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tud. 4
Ymateb Llywodraeth Cymru	Tud. 10
Y camau nesaf	Tud. 12
Atodiadau	Tud. 13

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gynigion i roi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") dynnu enw unigolyn sydd wedi cofrestru dros dro oddi ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru ("y Gofrestr") fel mesur interim, ac mae'n nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r farn a'r sylwadau a gafwyd.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 07 Medi 2020, a'r 04 Rhagfyr 2020 oedd y dyddiad cau ar gyfer ymateb.

Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud gorchmynion atal dros dro (GADDI). Byddai GADDI yn galluogi'r Cyngor i:

- atal Person Cofrestredig dros dro tra'n aros i ymchwiliad neu wrandawriad disgyblu gael ei gynnal; ac
- adolygu a dirymu gosod GADDI.

Tynnodd Atodiad i'r ymgynghoriad sylw wedyn at fersiwn ddiwygiedig o'r Gorchymyn drafft. Er mwyn rhoi amser i ystyried y newidiadau, estynnwyd y cyfnod ymgynghori hyd at 11 Rhagfyr 2020.

Mae'r Gorchymyn drafft diwygiedig yn mewnosod y mesurau diogelu ychwanegol a ganlyn i broses GADDI:

- a) Hawl i unigolyn a arferai fod yn gofrestredig apelio i'r Uchel Lys; a
- b) Gofyniad bod y Cyngor yn gwneud cais i'r Uchel Lys am unrhyw estyniad i GADDI y tu hwnt i 18 mis.

Gellir cael gwybodaeth am y Cyngor a'i waith yma:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/22-cymraeg/about-cym.html>

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd 67 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd dau o'r rhain yn wag ac ni wnaethant ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau. Roedd yr ymatebion yn cynnwys wyth gan ysgolion neu golegau, pedwar gan sefydliadau gwaith ieuencid, pedwar gan gyrff llywodraeth leol ac wyth gan sefydliadau undebau llafur. Gofynnodd 31 o ymatebwyr i'w hymateb aros yn ddiennw. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Ceir crynodeb isod o'r ymatebion i bob cwestiwn.

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion i roi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor?

Roedd 60 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i roi pwerau GADDI i'r Cyngor ac roedd pump yn anghytuno. O'r ymatebion sy'n cytuno, mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau ar y cwestiwn hwn yn gefnogol iawn i'r syniad o roi'r pwerau hyn i'r Cyngor, ac i'r ffaith y bydd GADDI yn adnodd pwysig o ran diogelu ac amddiffyn. Fodd bynnag, mae rhai yn gofyn am sicrwydd o ran tryloywder a gweithdrefnau. Roedd thema gyffredinol hefyd yn y sylwadau a oedd yn mynegi'r farn mai dim ond fel mesur brys mewn achos difrifol iawn y dylid defnyddio GADDI.

O'r pump a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd un ymatebydd diennw yn anghytuno ar y sail y gallai GADDI niweidio gyrfa person diniwed. Mae un arall yn credu y dylai'r Cyngor gael llai o bwerau yn hytrach na rhagor. Mae tri undeb llafur yn anghytuno â'r cynnig:

Dywed Unsain fod "CGA yn awgrymu bod eu cynigion yn adlewyrchu cynigion Rheoleiddwyr eraill. Nid yw hyn yn wir gan nad ydynt wedi cynnwys yr opsiwn o amodau ymarfer dros dro yn eu gweithdrefn. Mae hon yn elfen hanfodol i unrhyw broses interim gan ei bod yn opsiwn ar gyfer rheoli risg nad yw'n cael effaith ddinistriol atal dros dro (colli swydd ar unwaith yn ôl pob tebyg, o ganlyniad i dorri contract cyflogaeth yn sylfaenol). Wrth ddiystyru, i bob pwrpas, yr opsiwn posibl hwn mae'r broses hon yn fwy tebygol o gael ei herio'n llwyddiannus, gan gynnwys o dan ddeddfwriaeth Hawliau Dynol".

Mae'r NASUWT yn "dadlau bod pŵer o'i fath yn ddiangen ac yn anghymesur." Yn eu barn nhw, "byddai atal dros dro yn cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl yr unigolyn, gan y byddai atal dros dro o'r fath yn gyhoeddus, yn wahanol i waharddiad arferol o'r gwaith gan gyflogwr. At hynny, byddai atal dros dro hefyd yn cael effaith andwyol ar y berthynas rhwng y cyflogai a'i gyflogwr. Felly, ni all yr NASUWT gytuno â rhoi'r pŵer hwn i'r Cyngor".

Cytuna Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) y byddai'r "pŵer arfaethedig yn adnodd ychwanegol o ran diogelu". Fodd bynnag, maent hefyd yn teimlo "nad yw'n glir pam nad yw'r trefniadau diogelu presennol yn ddigon cadarn heb y gorchmyn atal dros dro interim a rhaid bod yn ofalus

wrth atal unigolion cofrestredig ar sail honiad yn unig". Maent hefyd yn codi rhai pryderon ynghylch sut y bydd y pwerau newydd yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys:

- *"y diffiniad o 'achos difrifol', ac mae'n hanfodol nad yw CGA yn mynd ati i atal cofrestrydd dros dro fel gweithred ragofalus yn unig, at ddibenion ymchwilio i'r achos";*
- *"dylid rhoi amser i ystyried sylwadau'r cofrestryddion ynghylch yr honiadau ac yn y pen draw i ystyried a ellir osgoi atal dros dro";*
- *"ni fyddem yn dymuno i'r gorchymyn gael ei ddefnyddio yn y fath fodd a allai effeithio ar hawl y cofrestrydd i gael gwrandawriad teg";*
- *"rydym yn cydnabod bod amgylchiadau eithriadol lle gellir cyfiawnhau GADDI, ond mae'n hanfodol nad yw'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n arferol a gofynnwn am fonitro'r defnydd ohono'n ofalus er mwyn sicrhau mai dim ond fel 'mesur brys' y caiff ei ddefnyddio".*

Cwestiwn 2 – A ydych chi'n cytuno â phrawf 'budd y cyhoedd' a'r ystyriaethau pellach y byddai'r Cyngor yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylai wneud gorchmynion atal dros dro interim?

Roedd 57 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd pedwar yn anghytuno, tri heb gytuno nac anghytuno ac ni wnaeth tri ymateb. Mae dau ymatebydd dienw yn anghytuno yn unol â'r rhesymau a roddwyd dros anghytuno â Chwestiwn 1. Mae dau undeb llafur yn anghytuno yn unol â'r rhesymau a roddwyd dros anghytuno â Chwestiwn 1.

Yn gyffredinol, mae sylwadau ymatebwyr sy'n cytuno â'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r prawf 'budd y cyhoedd'. Fel gyda C1, roedd thema gyffredinol yn y sylwadau a oedd yn cefnogi'r cynnig hwn, mai dim ond fel mesur brys mewn achos difrifol iawn y dylid defnyddio GADDI. Mae rhai ymatebwyr yn gwneud sylw ynghylch y geiriad a ddefnyddiwyd yn y ddogfen ymgynghori ond nid oedd yr un ohonynt yn awgrymu newidiadau i'r gorchymyn drafft.

Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno â'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer gwneud gorchmynion atal dros dro interim?

Roedd 39 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd dau ar bymtheg yn anghytuno, saith heb gytuno nac anghytuno ac ni wnaeth pedwar ymateb.

Atebodd llawer o ymatebwyr Gwestiynau 3 a 4 gyda'i gilydd. Y prif faen tramgwydd i'r rhai sy'n anghytuno yw y byddai'r broses a ddisgrifir yn ei gwneud yn bosibl i unigolyn sy'n destun GADDI ofyn am adolygiad ar unwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n anghytuno yn teimlo bod adolygiad ar ôl chwe mis yn ddigonol. Fodd bynnag, mae rhai undebau llafur yn teimlo y dylai unigolion allu gofyn am adolygiad pryd bynnag y bydd gwybodaeth newydd ar gael. Teimlai rhai ymatebwyr efallai y byddai manteision i sicrhau parhad aelodaeth rhwng y paneli sy'n cychwyn y GADDI ac yn

cynnal adolygiad ohono. Yn ei ymateb, awgrymodd y Cyngor newidiadau i Erthygl 12 o'r Gorchymyn drafft sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn.

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno â'r cynigion i roi'r hawl i gyn-Bersonau Cofrestredig ofyn am adolygiad o'r gorchmynion atal dros dro interim sydd wedi'u gosod arnynt?

Roedd 38 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd dau ar bymtheg yn anghytuno, nid oedd wyth yn cytuno nac yn anghytuno ac ni wnaeth pedwar ymateb.

Sylwadau fel uchod (gweler Cwestiwn 3).

Cwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai'r Cyngor adolygu gorchmynion atal dros dro interim yn rheolaidd?

Roedd 38 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd dau ar bymtheg yn anghytuno, nid oedd wyth yn cytuno nac yn anghytuno ac ni wnaeth pedwar ymateb.

Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau ynghylch y cwestiwn hwn yn cyfeirio at yr anhawster posibl o ran cael yr un panel ag a gychwynnodd GADDI i gynnal yr adolygiadau hyn. Mae llawer yn teimlo bod hon yn swyddogaeth y gallai un o swyddogion y Cyngor ei chyflawni. Dewis y Cyngor o dan reolau'r weithdrefn fyddai i un o swyddogion awdurdodedig priodol y Cyngor, yn unol â'r amserlenni a bennwyd gan y Pwyllgor, fod â'r cyfrifoldeb i ailasesu a yw'r rhesymau dros osod y GADDI yn parhau ai peidio, neu wedi newid. Byddai unrhyw newid yn sbarduno adolygiad gan Bwyllgor y byddai'r person cofrestredig yn gallu cyflwyno sylwadau iddo. Mae nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r dull hwn o weithredu.

Cwestiwn 6 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynghylch pryd y câi gorchmynion atal dros dro interim eu diddymu gan y Cyngor?

Roedd 35 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd deunaw yn anghytuno, deg heb gyntuno nac anghytuno ac ni wnaeth pedwar ymateb.

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn i raddau helaeth yn perthyn i'r rhai a dderbyniwyd cyn cyhoeddi'r Atodiad i'r Gorchymyn a'r rhai a dderbyniwyd ar ôl hynny. O'r rhai a oedd yn anghytuno ac wedi gwneud sylwadau, ac eithrio dau ymatebydd dienw oedd yn anghytuno ar sail eu barn gyffredinol na ddylai'r Cyngor gael y pwerau hyn, roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud â'r posibilrwydd y gallai ymchwiliadau troseddol gymryd mwy na 18 mis a'r angen am broses graffu a herio annibynnol, ac mae'n ymddangos bod yr Atodiad wedi mynd i'r afael â'r rhain.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn nodi "*nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi cyfrif o gostau apelio a gwneud cais i'r Uchel Lys na'r Effaith ar System Gyfiawnder yr Uchel Lys, fel yr amlinellir yn yr Atodiad. Dylid ailedrych ar hyn er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu hystyried yn llawn*".

Cwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion mewn perthynas â defnyddio rheolau gweithdrefnol y Cyngor wrth wneud penderfyniadau i osod gorchmynion atal dros dro interim, ar adolygu gorchmynion atal dros dro interim ar gais cyn-Bersonau Cofrestredig, a bod y Cyngor yn adolygu gorchmynion atal dros dro interim yn rheolaidd?

Roedd 56 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd tri yn anghytuno, pedwar heb gytuno nac anghytuno ac ni wnaeth pedwar ymateb.

Nid yw dau ymatebydd dienw yn cytuno, yn unol â'u barn gyffredinol na ddylai'r Cyngor gael y pwerau hyn. Roedd un undeb llafur yn anghytuno a dywedodd y byddai'n llawer mwy diogel pe bai'r materion hyn yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau. Gwnaethant sylw hefyd nad oeddent yn *"fodlon fod y Cyngor, wrth gynnal ymgynghoriadau ar ei reolau, yn rhoi digon o bwys ac ystyriaeth i ymatebion gan undebau llafur"*. Roedd bron pob un o'r sylwadau eraill o blaid y cynnig, er i un undeb llafur arall ddweud y dylid cael *"proses adolygu gadarn ac annibynnol i graffu ar broses corff fel y Cyngor wrth lunio ei reolau gweithdrefnol ei hun"*.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n fodlon ar gynnwys y Gorchymyn arfaethedig yn Atodiad A?

Roedd 36 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd 21 yn anghytuno, pump heb gytuno nac anghytuno ac ni wnaeth pump ymateb.

O'r 21 ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn, mae'r mwyafrif llethol yn gwneud hynny mewn perthynas ag Erthygl 12, sy'n ymwneud â'r broses adolygu. Mae eraill yn rhoi sylwadau ar elfennau o eiriad y ddogfen ymgynghori yn hytrach na geiriad y Gorchymyn. Mae tri ymatebydd yn anghytuno yn unol â'u barn gyffredinol na ddylai'r Cyngor gael y pwerau hyn.

Cwestiwn 9 – A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o'r effaith bosibl y gallai gorchmynion atal dros dro interim ei chael ar Bersonau Cofrestredig?

Roedd 52 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd pedwar yn anghytuno, chwech heb gytuno nac anghytuno ac ni wnaeth pump ymateb.

Mae cytundeb cyffredinol ar effaith GADDI ar bersonau cofrestredig. Fodd bynnag, mae un undeb llafur yn anghytuno ac yn credu bod yr effaith wedi'i thanddatgan. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn nodi bod yr *"Asesiad Effaith Integredig yn nodi'r pryderon o ran iechyd a lles y cyn-gofrestrwyr a'u teuluoedd"* ac yn awgrymu *"trafodaeth gydag undebau llafur perthnasol am y ffordd orau o sicrhau bod cyn-gofrestryddion yn cael cynnig cymorth iechyd meddwl ataliol ymarferol yn y sefyllfa hon"*.

Cwestiwn 10 – A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o gost ariannol rhoi'r pŵer i'r Cyngor osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim?

Roedd 47 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd tri yn anghytuno, deuddeg heb gytuno nac anghytuno ac ni wnaeth pump ymateb.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y dadansoddiad o gostau ariannol yn gywir ar sail y niferoedd isel o achosion a ddisgwylir. Mae un undeb llafur yn anghytuno oherwydd eu bod yn teimlo bod nifer yr achosion wedi'i danamcangyfrif.

Cwestiwn 11 – A ydych chi'n cytuno â chasgliad ein dadansoddiad o gost a budd mai opsiwn 2, lle mae'r Cyngor yn cael y pŵer i osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, yw'r opsiwn a ffefrir?

Roedd 50 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd pedwar yn anghytuno, wyth heb gytuno nac anghytuno ac ni wnaeth pump ymateb.

Mae'r pedwar ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn i gyd yn gwneud hynny yn unol â'u barn ehangach na ddylai'r Cyngor gael y pwerau hyn. Mae'r unig sylwadau sy'n benodol i'r opsiynau a osodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o blaid opsiwn 2.

Cwestiwn 12 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai ein cynigion i roi pwerau i'r Cyngor osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, yn eu cael ar y Gymraeg ac, yn benodol, ynghylch:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Nid oes yr un o'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio'n benodol at effeithiau cadarnhaol na negyddol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mynegwyd cefnogaeth gref i'r egwyddor o gynnal trafodion GADDI yn newis iaith y person cofrestredig, i gynrychiolaeth ddwyieithog ac i gyfieithwyr fod ar gael pan fo angen. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd y gallai "*fod yn her cynnal ymchwiliad cyfan yn Gymraeg ac y gallai hyn yn ei dro gael effaith ar amserlen yr ymchwiliad ac, yn sgil hynny, ar y cyfnod y bydd yr unigolyn wedi'i dynnu o'r gofrestr. Pe bai hyn yn wir, mae'n bosibl y byddai perygl na fyddai'r opsiwn o gael ymchwiliad yn Gymraeg yn cael ei gynnig ac y byddai hynny felly'n golygu na fyddai'r Gymraeg yn cael statws cyfartal*".

Cwestiwn 13 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i roi pwerau i'r Cyngor osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, yn eich barn chi:

- i) fel y byddant yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii) fel na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Fel gyda'r ymatebion i gwestiwn 12, mynegodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gefnogaeth gref i'r egwyddor fod trafodion GADDI yn cael eu cynnal yn newis iaith y person cofrestredig, i gynrychiolaeth ddwyieithog ac i gyfieithwyr fod ar gael pan fo angen.

Cwestiwn 14 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ailadrodd pwyntiau neu sylwadau a wnaed eisoes. Fodd bynnag, codwyd pwyntiau ychwanegol o ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau ymhlith personau cofrestredig a'r cyhoedd yn ehangach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac yn nodi bod mwyafrif sylweddol yr ymatebion a gafwyd o blaid rhoi pwerau GADDI i'r Cyngor.

Wrth gydnabod barn y rhai nad ydynt yn cytuno â'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon ymatebwyr, yn enwedig rhai undebau llafur ynghylch y risgiau o ddefnyddio pwerau GADDI yn amhriodol a hefyd ynghylch yr effaith y gallai GADDI ei chael ar Berson Cofrestredig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir lliniaru'r risgiau a'r pryderon hyn a'u lleihau'n sylweddol drwy gynnal cysylltiadau gwaith cryf rhwng y Cyngor ac undebau llafur, ac felly nad ydynt yn ddadl yn eu herbyn sy'n argyhoeddi. Barn Llywodraeth Cymru yw y bydd rhoi pwerau GADDI i'r Cyngor yn darparu mesur diogelu ychwanegol pwysig, ac mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno â hyn.

Wrth ystyried yr awgrym y dylid cynnwys yr opsiwn o amodau ymarfer dros dro yn y Gorchymyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes digon o dystiolaeth i'w cynnwys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyn ac ni fyddem yn diystyru eu cyflwyno yn y dyfodol petai dystiolaeth ar gael y byddent yn ddefnyddiol neu'n angenrheidiol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi pryderon a godwyd drwy'r ymgynghoriad mewn perthynas â nifer o feysydd eraill, gan gynnwys:

- Parhad aelodaeth paneli adolygu;
- Pryd y dylid adolygu Gorchymynion a phwy ddylai wneud hynny;
- Amserlen adolygiadau a pha mor rheolaidd y'u cynhelir; a
- Cynrychiolaeth a'r hawl i gael rhywun yn gwmni.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn a'r sylwadau a'r awgrymiadau a gafwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y newidiadau canlynol i eiriad y Gorchymyn drafft:

- Erthygl 4(2)(a) - newid geiriad o 'cyhuddiad' i 'honiadau';
- Erthygl 8(3) - newid 'cyflogwr/asiant' i 'gyflogwyr/asiantau';
- Erthygl 10 i gynnwys hawl i apelio i'r Uchel Lys (fel y nodwyd yn flaenorol yn yr Atodiad);
- Newidiwyd Erthygl 12 i atal y Cyngor rhag gorfod cynnull gwrandawriad yn amlach na phob 6 mis oni bai bod dystiolaeth yn cael ei darparu gan y Person Cofrestredig bod newidiadau sylweddol wedi bod yn amgylchiadau'r achos;
- Newidiwyd Erthygl 14 i'w gwneud yn gliriach bod gan y Person Cofrestredig yr hawl i gael cwmni person arall yn gymorth ("cael ei hebrwng") yn y gwrandawriad;
- Mae Erthygl 17 yn ychwanegu gofyniad i'r Cyngor wneud cais i'r Uchel Lys am unrhyw estyniad i GADDI y tu hwnt i 18 mis (fel y nodwyd yn flaenorol yn yr Atodiad);
- Erthygl 20(2) i gynnwys yr ymadrodd 'oni ddangosir i'r gwrthwyneb' (mewn perthynas â chyflwyno dogfennau); a

- Mae'r Gorchymyn wedi'i aildrefnu yn Erthyglau 12-16 i'w wneud yn fwy eglur.

Ystyriwyd dau newid arall a awgrymwyd i'r Gorchymyn drafft ond nid ydynt wedi cael eu derbyn:

- Newid a awgrymwyd i Erthygl 3(5) ar sail y farn, os yw Person Cofrestredig yn destun GADDI ac wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr, y byddai hyn yn codi cwestiynau ynghylch awdurdod y Cyngor i barhau â'i ymchwiliad. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'r awgrym hwn ar y sail bod Erthygl 3(4) yn dweud bod yn rhaid i'r Cyngor dynnu enw'r person oddi ar y Gofrestr, ond atal y person dros dro y mae, nid cael gwared arno'n barhaol, ac os dirymir y gorchymyn gellir cofrestru'r person eto heb wneud cais; a
- Erthygl 8 – "a ddylai'r Hysbysiad hefyd gynnwys y gofyniad i gyfeirio at ddyddiad yr adolygiad neu, os rhennir hynny'n hwyrach na dyddiad cyhoeddi'r GADDI, a ddylid crybwyll hyn?" Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod gofyn gwneud newid mewn perthynas â'r awgrym hwn, gan fod Erthygl 8 eisoes yn nodi bod rhaid i'r hysbysiad gynnwys esboniad o hawl y person i ofyn i'r Cyngor gynnull panel ynghyd i adolygu'r gorchymyn yn unol ag Erthygl 12. Bydd y dyddiadau hyn yn newid ac ni fyddant yn cael eu hadolygu'n awtomatig bob 6 mis oherwydd hawl gan y person i ofyn am adolygiad, a hefyd oherwydd dyletswydd gyffredinol y Cyngor i adolygu'r gorchymyn yn barhaus.

Hoffai Llywodraeth Cymru gydnabod a diolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae manylion yr awgrymiadau hyn yn ddiennw lle gwnaed cais am hynny ac maent wedi'u rhannu gyda'r Cyngor er mwyn ei gwneud yn bosibl iddo eu hystyried o ran ei reolau gweithdrefnol.

Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Gorchymyn drafft terfynol gerbron y Senedd cyn 23 Chwefror 2021.

Bydd y Senedd yn cynnal dadl ar y Gorchymyn drafft terfynol ar 16 Mawrth 2021.

Os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd, daw'r pwerau newydd i rym ar 01 Ebrill 2021.

Rhestr o'r Ymatebwyr

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
Beth Williams
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Clybiau Plant Cymru Kids Clubs
Colegau Cymru
Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru
Cyngor y Gweithlu Addysg
Equal Education Recruitment (E-equal Recruitment Ltd)
Estyn
General Teaching Council for Scotland
GMB Rhanbarthau Cymru a De-orllewin Lloegr
Gwynfor Jackson
CCAUC
Marc Bowen
Cyngor Sir Fynwy
Mrs A Brennan
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
National Education Union Cymru
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
New Directions Education Ltd
Peter Owen, PBW Consultancy
Cymwysterau Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Steve Powell
Susan Davies
UCAC
Unsain Cymru
Cyngor Bro Morgannwg
Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru
Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru
Ysgol Merylyn
Di-enw x 31